# TEITHIAU NATUR ABERHONDDU

## 6 taith gerdded fer i'ch cyflwyno i fywyd gwyllt Aberhonddu








BANNAU BRYCHEINIOG
PARTNERIAETH NATUR LEOL
Dyfodol Gyda Natur Yn Ganolog Iddi

PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL
LOCAL NATURE PARTNERSHIPS
CYMRU

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Aberhonddu – ‘Porth i Fyd Natur’

Mae Aberhonddu wrth galon Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, o fewn golwg i rai o fynyddoedd uchaf de Prydain. Ond does dim rhaid i chi deithio i’r mynyddoedd i fwynhau byd natur – mae digonedd o fywyd gwyllt i’w weld o fewn pellter cerdded i ganol y dref. Mae yno gynefinoedd amrywiol ar gyfer llawer o rywogaethau – rhai ohonynt yn cael sylw ar y teithiau cerdded hyn. Mae Aberhonddu wir yn ‘Borth i Fyd Natur’.

Ym myd natur, mae ‘cysylltiadau’ yn hollbwysig – does dim un rhywogaeth yn gallu byw’n annibynnol. Pwrpas y teithiau cerdded hyn yw amlygu’r cysylltiad rhwng y tirweddau a’r cynefinoedd amrywiol a welwch â’i gilydd, eu cysylltiad â’r amgylchedd trefol ac, yn y pen draw, eu cysylltiad â ni.

Yn ogystal â bod yn lles i’ch iechyd a’ch llesiant, gobeithio y bydd y teithiau hyn yn eich helpu i gael gwell dealltwriaeth o fyd natur yn Aberhonddu a’r rhan y mae’n ei chwarae yn y dirwedd naturiol ehangach.  Fel y gwyddom, mae cysylltiad â byd natur yn lles i ni a hoffem ddyfnhau eich cysylltiad chi ag ef.

Mae’r teithiau hyn yn mynd â chi heibio i lawer o lefydd diddorol i weld bywyd gwyllt o bob lliw a llun ar wahanol adegau o’r flwyddyn, o goed hynod i hoff byllau dyfrgwn. Mae hefyd yn cynnwys prosiectau wedi’u trefnu a’u cynnal gan grwpiau lleol a’u hariannu gan gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) i helpu i warchod a gwella bywyd gwyllt yn Aberhonddu a’r cylch.

## Dysgu mwy a chymryd rhan

Os hoffech wybod mwy a chyfrannu at warchod natur:

**Partneriaeth Natur Leol Bannau Brycheiniog**
https://www.biodiversitywales.org.uk/Lleol-i-chi

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**
https://bannau.cymru/amgylchedd/

Mae gan yr **Ymddiriedolaeth Natur** leol wybodaeth am fywyd gwyllt, gwirfoddoli a sut i roi hwb i fywyd gwyllt yn eich gardd chi.
https://www.welshwildlife.org/cy

**Brecon Gateway Ecological Data Report 2024**
Lluniwyd gan **Wasanaeth Gwybodaeth Fioamrywiaeth Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** https://www.bis.org.uk/

**Cofnodi bywyd gwyllt:**
Ap **LERC** https://www.lercwales.org.uk/app.php
neu **BIS** https://www.bis.org.uk/get_involved/submit_a_record

Mae sawl ap ar gael i’ch helpu i nabod planhigion, adar a phryfetach ond mae cyflwyno cofnod hefyd yn help mawr i fonitro rhywogaethau.

Mae llawer o gyrff eraill a grwpiau cymunedol lleol hefyd!



## Y Teithiau Cerdded

Gellir mynd ar un daith gerdded gylchol hir, ar chwe thaith unigol fyrrach neu gallwch gyfuno'r teithiau fel y mynnwch. **Mae pob taith gerdded unigol yn cychwyn ac yn gorffen yng Nghyfnewidfa Fysiau Aberhonddu**. Mae pob taith yn dilyn llwybrau sydd â hawl tramwy cyhoeddus.

Dewiswyd llwybrau sydd mor hygyrch â phosibl. Seilir y disgrifiad ar y system raddio isod. Nodir rhai nodweddion anodd ar deithiau cerdded Gradd 1 neu 2 a chynigir llwybr arall os oes modd.

**Gradd 1:** Llwybrau sydd heb rwystrau, sydd bron yn gwbl wastad, ac sydd â wyneb cadarn neu wedi'i gywasgu. Mae seddau ar y rhan fwyaf.

**Gradd 2:** Llwybrau sydd â rhai rhannau ag wyneb ychydig yn fwy llac a llethrau bach. Gall fod clwydi arnynt ond dim camfeydd/sticlau. Gall fod ambell sedd.

**Gradd 3:** Llwybrau ag ambell lethr hir neu serth, rhai mannau cul, wyneb mwdlyd neu garegog efallai a chlwydi/gatiau cul. Efallai na fydd seddau.

**Gradd 4:** Llwybrau sydd â rhannau cul a serth a gall y wyneb fod yn wael mewn mannau. Gall y clwydi/gatiau fod yn gul ac efallai y bydd camfeydd/sticlau a stepiau. Mae'n annhebygol y bydd seddau.

## Beth i fynd gyda chi

Mae'n well gwisgo esgidiau call (esgidiau cerdded sydd orau ar gyfer teithiau Gradd 3+) a dillad addas ar gyfer y tymor. Mae binocwlars a chamera yn ddefnyddiol i wneud y gorau o'r hyn a welwch!

## Diogelwch

Byddwch yn ofalus ar y teithiau i gyd. Ymhlith y peryglon mae traffig, llwybrau llithrig neu fwdlyd, cerrig palmantu a llethrau. Mae rhai o'r llwybrau ar lan afonydd sy'n aml yn llifo'n gyflym.

## Cŵn

Cadwch eich ci dan reolaeth agos a gofalwch ei fod ar dennyn ger da byw ac ar dir agored yn ystod y tymor y mae adar yn nythu ar y ddaear (dechrau Mawrth tan ddiwedd Gorffennaf) hyd yn oed os nad oes arwydd. Cliriwch ar ôl eich ci.



## Taith gylchol gyflawn

**Pellter:** 13.5 milltir /21.7km
**Gradd:** **4**

## Llwybr 3 — Pen y Crug


**Pellter:** 4.5 milltir /7.2km
**Gradd:** **4**
**Cynefinoedd:** Perthi/gwrychoedd, bryn agored ac afon.

## Llwybr 2 — Gelli'r Priordy

**Pellter:** 2 filltir/3.1km
**Gradd:** **2-3**
**Cynefinoedd:** Afon, coetir a pherthi/gwrychoedd.

## Llwybr 1 — Twmp Slwch a Phenlan

**Pellter:** 2.5 milltir /4.1km
**Gradd:** **4**
**Cynefinoedd:** Dolydd, perthi/gwrychoedd, a bryn agored.




## Llwybr 4 — Y Prom a Llwybr y Gurkhas

**Pellter:** 3.5 milltir /5.6km
**Gradd:** **1-3**
**Cynefinoedd:** Afon a dolydd.

## Llwybr 5 — Llan-faes

**Pellter:** 3 milltir /4.8km
**Gradd:** **1-2**
**Cynefinoedd:** Afonydd a pherthi/gwrychoedd.

## Llwybr 6 — Caeau'r Ynys a'r gamlas

**Pellter:** 2.8 milltir/4.5km
**Gradd:** **1-2**
**Cynefinoedd:** Afon, dolydd a'r gamlas.

Gogledd


600 metr

Llwybr 1

# Twmp Slwch a Phenlan



**Pellter:** 2.5 milltir /4.1km
**Gradd:** **4.** Pedair step ar ddechrau'r llwybr. Camfeydd/sticlau â gatiau cŵn. Gall fod da byw.
**Cynefinoedd:** Dolydd, perthi/gwrychoedd a bryn agored.




1. O'r Gyfnewidfa Fysiau, croeswch i ochr draw'r heol wrth y goleuadau. Trowch i'r chwith ar yr ochr draw a dilynwch y palmant rownd i Camden Road. Cymerwch y troad cyntaf ar y chwith i fyny Camden Crescent.
2. Ger pen draw'r heol mae llwybr troed ar y chwith. Ewch i fyny'r stepiau, trwy'r glwyd ac i fyny'r llethr.
3. Ewch trwy'r glwyd ym mhen uchaf y cae ac yna trowch yn syth i'r dde trwy glwyd arall.

*Mae'r **ddraenen wen** yn ysblennydd yn ei blodau ym mis Mai. Yn yr hydref mae ei haeron coch llachar yn wledd i adar.*





*Gallech weld **cnocell werdd** â'i phig mewn twmpath morgrug yma. Maent yn sugno **morgrug** i fyny â'u tafodau hir, gludiog. Gwrandwch i weld a glywch chi nhw'n gwneud sŵn chwerthin wrth hedfan.*

Mae nifer o berthi/wrychoedd hynafol yn ardal Twmp Slwch. Mae gwrychoedd yn bwysig fel 'coridorau bywyd gwyllt', gan ddarparu bwyd a llwybrau cysgodol fel y gall creaduriaid symud o gwmpas. Gall ambell goeden unigol mewn cae ddangos lle bu gwrychoedd eraill yn cris-croesi ar un adeg. Ariannwyd nifer o brosiectau lleol i blannu mwy o wrychoedd yn Aberhonddu a'r cyffiniau gan gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) a chyrff eraill. Gall coed marw sydd ar eu traed edrych yn ddifywyd, ond maent yn gartref pwysig i amrywiaeth eang o ffyngau a phryfed. Mae **ystlumod** yn llochesu mewn craciau yn y pren sy'n pydru, a **chnocellod y coed**, **tylluanod** ac adar eraill yn nythu mewn tyllau mwy o faint.



*Yn yr hydref mae **ffyngau cap cwyr** llachar o wahanol liwiau'n ymddangos ar laswelltir sy'n cael ei bori'n fyr.*

Ewch yn syth ymlaen, gan gadw i'r dde ar dir gwastad pan ddaw fforch ddisylw yn y llwybr glaswellt. Yna, pan welwch fforch amlwg yn y llwybr, cymerwch y llwybr chwith i fyny'r rhiw a mynd ymlaen o gwmpas bryngaer Twmp Slwch o'r Oes Haearn. Er ei bod yn fawr, mae'r fryngaer yn rhyfedd o anodd ei gweld – mae gwrychoedd a rhedyn yn cuddio'r ffosydd a'r rhagfuriau i raddau helaeth.

4 Pan welwch ddwy gamfa/sticil, croeswch yr un o'ch blaen a throi i'r chwith i ddringo llethr mwy serth at yr arglawdd – rhagfuriau'r gaer. Dylech gael golygfeydd ardderchog o'r Bannau Canol a Dyffryn Wysg.

Dilynwch y llwybr i'r dde i gerdded yn wrthglocwedd o gwmpas y gaer (camfeydd) at lwybr suddedig hynafol – Lôn Slwch.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r caeau ger Twmp Slwch yn cael eu ffermio'n ddwys, ac felly mae cyfle i gyfoeth o flodau gwyllt a phlanhigion amrywiol eraill dyfu yno. Mae'r rhain yn rhoi bwyd a lloches i amrywiaeth eang o bryfetach ac anifeiliaid eraill. Mae'r cae uwchlaw'r fforch yn gyforiog o rywogaethau o blanhigion gwyllt, un o'r goreuon yn Aberhonddu. Weithiau gwelwch ferlod yn ogystal â defaid yn pori uwchlaw'r y rhagfuriau. Gall pori cymysg roi hwb i fywyd gwyllt i ffynnu gan fod merlod yn bwyta planhigion fel rhedyn ac eithin ac yn eu sathru.

5 Trowch i'r chwith a dilyn Lôn Slwch i lawr i Cerrigcochion Road. Byddwch yn ofalus ym mhen draw Lôn Slwch - rydych yn cyrraedd y briffordd yn sydyn.


*Lôn Slwch*

Mae Lôn Slwch yn goridor bywyd gwyllt ardderchog, â'r hen wrychoedd a'r coed aeddfed yn rhoi digon o gysgod i adar ac anifeiliaid. Cadwch eich llygaid yn agored hefyd am dyllau a llwybrau trwy'r cloddiau, lle mae **cadnoid, moch daear** ac anifeiliaid eraill yn croesi'r lôn yn rheolaidd i'r caeau ar y naill ochr neu'r llall.

6 Croeswch yr heol a throi i'r dde gan ddal i fynd i fyny tua'r coleg a'r Ganolfan Hamdden ym Mhenlan.

7 Ewch heibio i'r coleg ac, ychydig cyn cyrraedd y Ganolfan Hamdden, trowch i'r chwith tuag at fynedfa'r coleg. Mae llwybr ag ychydig o stepiau ger y pyst pren yr ochr draw i'r ffordd fynediad. Dilynwch y llwybr hwn at y pyllau. *(Er mwyn osgoi'r stepiau, cymerwch y troad cyntaf ar y dde a dilynwch yr heol hon rownd i'r dde. Fe welwch y pwll o'ch blaen.)* Trowch i'r dde a cherdded ar hyd y llwybr troed o gwmpas Pyllau Penlan.

8 Ewch ymlaen ar hyd llwybr pren i ben draw'r llwybr ar gyffordd.

9 Ewch yn syth ymlaen i lawr Belle Vue Road, heibio i'r ysgol at y gyffordd T.

10 Trowch i'r chwith ar hyd Alexandra Rd. Yn y pen draw (lle mae ceir wedi'u rhwystro) byddwch ger y goleuadau wrth ymyl y Gyfnewidfa Fysiau.

Mae Pyllau Penlan wedi denu amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, yn cynnwys **madfallod dŵr cribog** prin. Mae'r rhain yn anodd iawn eu gweld, ond mae'r pyllau'n lle da i weld **gweision y neidr** a **mursennod** yn yr haf.



*Mae poblogaeth y Deyrnas Unedig o **fadfallod dŵr cribog** o bwysigrwydd rhyngwladol ac maent yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith gan fod eu niferoedd yn gostwng.*

## Cysylltiadau â **Llwybr 2**

O Bwynt 9 ewch yn syth ymlaen i lawr yr heol am 75 metr, yna trowch i'r dde ar hyd y llwybr troed ger ysgol y babanod. Ym mhen draw'r llwybr trowch i'r chwith ar y ffordd ac yna i'r dde i ben grisiau'r Brenin Siarl. *(Mae'r grisiau hyn yn goblog, yn serth a gallant fod yn llithrig pan fyddant yn wlyb. Mae canllaw i afael ynddo)*. Ar y gwaelod, trowch i'r dde ac ar ôl 30m croeswch yr heol a'r bont droed haearn i ymuno â **Llwybr 2** ym Mhwynt 3

Neu, i osgoi'r grisiau: Ewch ymlaen i Bwynt 10 Ar y gyffordd T, trowch ychydig i'r dde, heibio'r ysgol iau ar Mount Street. Yna, trowch i'r dde i lawr y rhiw at y goleuadau traffig ac ymuno â **Llwybr 2** ym Mhwynt 2

Llwybr 2

# Gelli’r Priordy



**Pellter:** 2 filltir /3.1km

**Gradd:** **2-3.** Rhai llwybrau ar lethr a thir anwastad.

**Cynefinoedd:** Afon, coetir a gwrychoedd.


1 O’r Gyfnewidfa Fysiau, croeswch yn syth ar draws wrth y goleuadau traffig ac ewch ymlaen ar hyd Heol Gouesnou, heibio’r archfarchnadoedd.

2 Wrth y goleuadau traffig nesaf, trowch i’r dde ar hyd y stryd o dai Sioraidd o’r enw The Struet. Ymhen 50 metr ar ôl pasio cyffordd, croeswch y ffordd, ac yna croeswch y bont droed haearn dros afon Honddu.

A dyna chi yng Ngelli’r Priordy, coetir hardd sy’n Ardal Cadwraeth Arbennig ar lan afon Honddu. Coed **ffawydd** yn bennaf sydd yng Ngelli’r Priordy, ond mae yno amrywiaeth dda o goed eraill. Mae llawer o wahanol adar yn byw yn y cwm serth, yn eu plith **delor y cnau, y dringwr bach, y gnocell fraith fwyaf, y titw tomos las** a’r **titw mawr**. Yn aml, mae’r coetir yn fwrlwm o adar – mae’n werth oedi am dipyn i wylio a gwrando. Mae’n bosib iawn y gwelwch **grëyr glas** yn pysgota neu **fronwen y dŵr** yn plymio i’r afon. Mae’r rhan hon o afon Honddu yn fas, yn greigiog ac yn gysgodol. Mae **eogiaid, brithyllod** a physgod eraill yn nofio i fyny’r afon i chwilio am welyau gro lle cânt silio. Mae **dyfrgwn** yn byw yn yr afon hefyd.



*Os sefwch ar y bont, efallai y gwelwch **fronwennod y dŵr,** adar bach â bron wen, yn sefyll ar gerrig mawr yn bobian i fyny ac i lawr.*




3 Dilynwch y llwybr rownd i’r dde. Cewch ragor o fanylion am y bywyd gwyllt ac esboniad o hanes Gelli’r Priordy ar y bwrdd gwybodaeth. Mae llawer o lwybrau i’w crwydro yng Ngelli’r Priordy ond, ar gyfer y daith hon, dilynwch y llwybr tarmac i fyny’r rhiw heibio i **goeden goch** fawr drawiadol. Gweddillion hen gynllun plannu ffurfiol y Gelli yw’r **goeden goch** hon a’r coed **ffawydd** tal a welwch. Ewch ymlaen at fynedfa isaf mynwent yr eglwys gadeiriol lle mae’r llwybr yn gwyro i’r dde ac fe welwch fwrdd gwybodaeth arall.



*Mewn coetir, mae **moch coed / pryfed lludw** yn system ailgylchu, sy'n bwyta bron unrhyw beth ac yn ailgylchu maethynnau hanfodol. Yn aml. maent i'w cael o dan bren sy'n pydru neu wedi marw – un o ficrogynefinoedd pwysicaf coetir. Mae pren sy'n pydru yn ailgylchu maethynnau yn ôl i'r pridd, gan roi bwyd a llecynnau bridio ar gyfer anifeiliaid prin. Yng Ngelli'r Priordy, fe welwch ddigonedd o enghreifftiau o goed marw naill ai ar eu traed neu wedi cwympo. Yn aml yn yr hydref fe welwch enghreifftiau trawiadol o ffyngau arnynt.*

Mae'n werth mynd allan o'ch ffordd dipyn bach i dir yr eglwys gadeiriol. Ar y naill ochr a'r llall i brif lwybr y fynwent mae rhodfa o goed **pisgwydd dail mawr** ac mae yno **goeden goch** fawr arall – sylwch ar y rhisgl meddal fel sbwng. Yn aml, wedi iddi nosi, fe glywch sgrech y **dylluan wen** neu dw-wit tw-hŵ y **dylluan frech**. Ar dir yr eglwys gadeiriol fe welwch hefyd ardd brydferth wedi'i hadfer gan grŵp Green Minds Ecotherapy www.brecongreenminds.co.uk a ariannwyd yn rhannol gan gronfa LPfN i gynnal gweithdai bywyd gwyllt a chreu rhagor o gynefinoedd bywyd gwyllt.

Ewch ymlaen i'r dde, heibio i'r ffynnon i gyffordd yn y llwybr lle mae'n troi'n llwybr graean/pridd wedi'i gywasgu. Dilynwch y llwybr o gwmpas i'r dde. Cafodd grŵp cymunedol Friends of Brecon Groves and Prom arian o Gronfa LPfN i blannu perllan gymunedol yn y cae chwarae gerllaw ac i greu llwybr cerfluniau trwy'r coed gyda cherfiadau o'r bywyd gwyllt sydd yng Ngelli'r Priordy. Ewch ymlaen am tua 400m.

Gan fod y coetir ar lethr mor serth, rydych yn aml yn cael golygfa dda o wreiddiau coed ar y chwith i chi, ac rydych yn edrych i mewn i ganghennau uchaf y coed sy'n tyfu oddi tanoch ar y dde. Cadwch lygad yn agored am nythfeydd mawr o **ydfrain** a 'phardduaid' o **jacdoeau** ym mrigau'r coed.

Mae Gelli'r Priordy yn lle gwych i fynd am dro ym mhob tymor. Ddechrau'r gwanwyn mae carpedi gwyn o **flodau'r gwynt** yn blodeuo yn yr heulwen o dan y coed noeth. Cyn hir, daw **clychau'r gog** yn eu lle. Mae'r rhain yn hoffi'r cysgod a gânt wrth i'r dail ddychwelyd i'r coed. Mae'r hydref yn amser hudolus i ymweld hefyd â'r coed yn sbloet ysblennydd o liwiau.

4 Trowch i'r chwith i fyny'r rhiw heibio i'r cerflun pren o gadno. Mae Gelli'r Priordy yn ymestyn tua'r gogledd oddi yma ac efallai yr hoffech grwydro tipyn mwy yno. Cadwch i'r chwith ar hyd llwybr o'r enw Fox's Lane sy'n rhedeg rhwng tai.

Mae Fox's Lane yn 'goridor bywyd gwyllt' gwerthfawr, gyda'r gwrychoedd yn rhoi cysgod i adar yr ardd yn y tymor magu, **nadroedd defaid**, a **draenogod** ac mae **aeron** yn tyfu yno yn yr hydref.

*Mae **draenogod** yn dibynnu ar berthi/gwrychoedd ac ymylon coetiroedd am gysgod a bwyd. Rhai o hoff fwydydd **draenogod** yw **chwilod, pryfed clust, mwydod** a **lindys**. Mae eu niferoedd yn gostwng yn ddifrifol ym Mhrydain ac maent yn cael eu diogelu gan y gyfraith. Gall pobl eu helpu i oroesi trwy roi bwyd anifeiliaid anwes sy'n cynnwys cig neu fwyd arbennig i ddraenogod allan iddynt a gadael i ran o'u gardd dyfu'n wyllt ac yn ddeiliog i roi lloches iddynt.*



Croeswch yr heol lle mae'r byngalos (Pendre Close) ac ewch ymlaen tan i chi gyrraedd y briffordd (Pendre B4520).

5 Trowch i'r chwith a dilyn yr heol i lawr heibio i Eglwys Gadeiriol Aberhonddu i waelod y rhiw. Wrth y gyffordd T, trowch i'r dde. Wrth y goleuadau traffig trowch i'r chwith a dilyn Heol Gouesnou yn ôl i'r man cychwyn.

## Cysylltiad â **Llwybr 3**

Ym Mhwynt 5 trowch i'r dde i fyny'r ffordd. Ar ôl 250 metr, dilynwch gyfarwyddiadau **Llwybr 3** o Bwynt 2 ymlaen.

Llwybr 3

# Pen y Crug



**Pellter:** 4.5 milltir /7.2km
**Gradd:** **4.** Llwybr garw, serth mewn rhai mannau. Camfeydd/sticlau ar y ffordd yn ôl.
**Cynefinoedd:** Gwrychoedd, bryn agored ac afonydd.

1 O'r Gyfnewidfa Fysiau, croeswch yn syth ar draws wrth y goleuadau traffig ac ewch ymlaen ar hyd Heol Gouesnou, heibio'r archfarchnadoedd i'r ail set o oleuadau traffig. Trowch i'r dde yma ar hyd y stryd o dai Sioraidd o'r enw The Struet. Trowch i'r chwith i fyny Priory Hill gan ddilyn yr arwyddion i'r Eglwys Gadeiriol. Cewch ymweld â'r Eglwys Gadeiriol a'i safle os dymunwch. *(Cewch wybodaeth o dan 'Llwybr 2').*

Ewch ymlaen i fyny'r briffordd o'r Eglwys Gadeiriol (Pendre) gan aros ar balmant yr ochr dde am ryw 600m.

2 Ar ôl pasio cyffordd Maes y Ffynnon ar y chwith, ewch ymlaen ar y briffordd am ryw 75m. Yna, cadwch lygad yn agored am arwydd llwybr ceffylau, hwn hefyd ar y chwith. Croeswch y briffordd i'r llwybr hwn.

Dilynwch y llwybr i fyny'r rhiw am tua 800m.

Os byddwch yn lwcus, gallech glywed 'cri'r **gylfinir**' rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf. Mae'r **gylfinir** yn rhywogaeth sydd mewn perygl ond mae rhai wedi bod yn bridio'n llwyddiannus ar dir amaethyddol gerllaw. Ganrif yn ôl, roedd y **barcud** bron wedi marw o'r tir ym Mhrydain. Diolch i raglenni cadwraeth, mae'r adar trawiadol hyn yn olygfa gyffredin unwaith eto.

3 Ar gyffordd, trowch i'r chwith i fyny'r rhiw, gan ddilyn yr arwydd.

Mae'r lôn yn dangos ei hanes yma, yn 'lôn suddedig' rhwng cloddiau pridd uchel â gwrychoedd ar eu pen. Cadwch lygad yn agored am y **dderwen** aeddfed fawreddog ac am enghraifft dda o blygu perth, lle mae'r coesynnau wedi'u plethu'n llorweddol er mwyn gwarchod y berth/gwrych fel cynefin a chreu rhwystr byw sy'n atal anifeiliaid fferm rhag crwydro.

Ewch ymlaen heibio i Crug Villa ac i fyny llwybr cul, mwy garw, at glwyd i'r bryn agored.

Ewch i fyny'r rhiw ar lwybrau glaswelltog i gyrraedd y piler triongli. Dylid cadw cŵn ar dennyn gan fod yno dda byw, ac adar sy'n nythu ar y ddaear.

'Tir comin' yw Pen y Crug. Mae ganddo berchennog ond mae gan ffermwyr cyfagos hawl i roi eu defaid a'u merlod i bori yno. Maent hefyd yn cynaeafu rhedyn yno bob hydref i'w roi o dan eu hanifeiliaid yn y gaeaf. Ar y copa mae bryngaer drawiadol o'r Oes Haearn â'r rhagfuriau i'w gweld yn glir. O'r copa, 331m o uchder, cewch olygfa 360 gradd o'r ardal yn cynnwys Aberhonddu, Dyffryn Wysg, y Bannau Canol a'r Mynyddoedd Duon. Yma, mae'n eithaf posibl y gwelwch adar fel y **barcud**, y **bwncath, corhedydd y waun** a'r **ehedydd**.

Yn yr hydref, mae Pen y Crug yn safle o bwysigrwydd rhanbarthol ar gyfer **ffyngau cap cwyr**. Er nad yw glaswelltir asidaidd yn naturiol gyforiog o flodau gwyllt, mae'n cynnwys rhywogaethau tlws fel **clychau'r eos** a'r **bumnalen ymlusgol**.



*Bwncath*



*Barcud*



*Yn aml, fe glywch **ehedyddion** cyn eu gweld gan fod eu cân fel pe bai'n llenwi'r awyr. Mae'r ceiliogod yn canu wrth iddynt godi'n uchel, yn syth i fyny, cyn plymio yn ôl i'r ddaear fesul tipyn. Maent fwyaf llafar yn ystod y tymor paru yn y gwanwyn, pan fyddant yn gwneud sioe o ganu'n uchel ac yn hir er mwyn creu argraff ar yr ieir.*




(4) Mae dwy ffordd i lawr o gopa Pen y Crug:

**Er mwyn osgoi camfeydd/sticlau:** Ewch yn ôl i lawr at y glwyd a'r lôn y ffordd y daethoch. Ar y ffordd fawr, trowch i'r dde am 75 metr, yna trowch i'r dde ac yn syth i'r dde eto i Faes y Ffynnon. Dilynwch yr heol hon am 200 metr, yna cadwch olwg am arwydd i Ffynnon Maen-du ac ymuno â'r llwybr eto ym Mhwynt (5)

**Neu:** Dilynwch y llwybr yn ôl i lawr at y garreg fawr ar y groesfan ac yna trowch i'r dde i derfyn y cae, lle mae camfa/sticil.


Mae sawl camfa uchel ar y ffordd i lawr, a does dim gât gŵn gan bob un. Gall fod defaid neu wartheg yn y caeau – cymerwch ofal. Wrth y gamfa isaf, fe welwch Ffynnon Maen-du.

Wrth i chi groesi'r gamfa, fe welwch ragor o gloddiau hynafol, **coed cyll** a **drain gwynion** a'r **sycamorwydden** hynod ger pen uchaf y cae.

5 Mae Ffynnon Maen-du yn dyddio o ganol yr 1700au. Fe welwch adeilad bach cerrig â chwrs dŵr yn dod ohono. Y tu mewn i'r adeilad mae pwll y ffynnon – ble mae'r dŵr yn tarddu.



*Mae'r **gellesgen (iris felen)** yn un o'r planhigion brodorol sy'n ffynnu yn y cynefinoedd dyfrllyd ger Ffynnon Maen-du. Mae ei blodau dramatig yn ymddangos rhwng Mai ac Awst.*



*Ffynnon Maen-du*

Ar ôl gweld y ffynnon, ewch i gyfeiriad yr heol gan ddilyn y llwybr graean i'r dde a, phan welwch yr arwydd i'r ffynnon, croeswch yr heol at y tai gyferbyn. Mae lonydd cul rhwng y tai. Dilynwch y lôn agosaf *(neu unrhyw lôn sy'n mynd i'r cyfeiriad hwnnw)* trwy'r stâd nes i chi gyrraedd cae chwarae mawr â golygfeydd gwych o'r Bannau Canol, Dyffryn Wysg a'r Mynyddoedd Duon.

Hyd yn oed mewn ardaloedd adeiledig, gall gerddi fod yn hafan i fywyd gwyllt. Ar y daith gerdded hon, mae enghreifftiau lu o ffyrdd mae pobl yn garddio er budd bywyd gwyllt. Yn y cae fe welwch goed **derw** hynod â'u cilfachau a'u ceudodau'n cynnal nifer fawr o adar a phryfetach.

6 Croeswch ben uchaf y cae, i gyfeiriad pen draw'r parc chwarae. Trowch i'r dde yn y pen draw, mynd trwy'r glwyd, yna i'r chwith ar hyd llwybr sy'n dod â chi at heol. Trowch i'r chwith a dilyn yr heol, gan groesi'n syth ar draws pan gyrhaeddwch y gylchfan fach. Ym mhen draw'r heol, trowch i'r chwith i Cradoc Road a cherdded i lawr y rhiw gan basio'r fynwent â'i golygfeydd gwych.

Cymerwch y troad cyntaf i'r dde i Fenni Fach Road. *(Does dim palmant am y 50m cyntaf, felly cymerwch ofal.)*

7 Fe gyrhaeddwch y Promenâd ar lan afon Wysg, lle mae caffi, toiledau a bwrdd gwybodaeth am yr ardal. Mae afon Wysg wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Trowch i'r chwith yma a, gan gadw'r afon ar y dde i chi, dilynwch lwybr yr afon at yr heol a'r bont lle mae afonydd Honddu a Wysg yn cwrdd.

*Daeth **mulfrain** yn olygfa gyffredin ar y rhan hon o'r afon. Yn y gorffennol, anaml y byddent yn crwydro ymhell o'r arfordir, ond yn y degawdau diwethaf mae isrywogaeth wahanol wedi cyrraedd o Ewrop. Mae'n well gan yr adar hyn nythu ger llynnoedd ac afonydd mewndirol.*





*Mae'r llwybr hwn yn lle da i gerdded gyda'r nos yn yr haf i weld **ystlumod lleiaf**, **ystlumod Daubenton** ac **ystlumod mawr** yn hela am bryfed sy'n hedfan dros yr afon.*

8 Trowch i'r dde ar yr heol, ewch yn syth ar draws wrth y goleuadau traffig a mynd ymlaen ar hyd llwybr yr afon. *(Mae stepiau i lawr – y dewis arall yw mynd yn syth trwy ganol y dref).*

Pan gyrhaeddwch heol arall, dilynwch y llwybr ar y chwith trwy ardd heddychlon amgueddfa/llyfrgell Y Gaer. Pan gyrhaeddwch y brif ffordd, croeswch ar y groesfan sebra. Trowch i'r dde, yna cadwch i'r chwith ar hyd Free St sy'n mynd â chi yn ôl i'r Gyfnewidfa Fysiau.

## Cysylltiad â **Llwybr 4**

O Bwynt 7 dilynech gyfarwyddiadau **Llwybr 4** o Bwynt 3

Llwybr 4

# Y Prom a Llwybr y Gurkhas



**Pellter:** 3.5 milltir /5.6km
**Gradd:** **1-3**. Mae'n hawdd cerdded ar hyd y Prom. Mae Llwybr y Gurkhas yn gul ac yn anwastad a gall fod yn llithrig. Gall fod o dan ddŵr pan fo'r afon yn uchel.
**Cynefinoedd:** Afon a dolydd.


1 O'r Gyfnewidfa Fysiau, trowch i'r chwith wrth y goleuadau, ar hyd Free St. Yn y pen draw, trowch i'r dde a cherdded trwy ganol y dref, heibio i Eglwys y Santes Fair.

**Hebogiaid tramor** yw hebogiaid mwyaf y Deyrnas Unedig a chawsant eu gweld bob blwyddyn ar dŵr yr eglwys o ddiwedd yr haf ymlaen. Maent yn dal **bronfreithod, colomennod** ac adar eraill i'w bwyta. Gall hebog blymio i lawr ar ei ysglyfaeth ar gyflymder o hyd at 200 mya.

2 Pasiwch y siopau, yna fforchio i'r chwith a mynd i lawr Heol y Defaid. Fe ddewch at y goleuadau traffig ger y bont dros afon Wysg. Croeswch i'r heol gulach gyferbyn, croeswch y bont dros afon Honddu a throwch i'r chwith yn syth wrth gaffi'r ciosg i gerdded ar hyd y Promenâd.

Mae hysbysfwrdd yma'n rhoi manylion bywyd gwyllt afon Wysg a'i glannau fel **eogiaid** a **lampreiod**.

Ewch ymlaen ar lan afon Wysg ar hyd llwybr sy'n wastad yn bennaf ac iddo wyneb caled, gan basio'r gored.



***Crychydd / Crëyr Glas***

Yn aml, gwelir **crëyr glas/crychydd** yn pysgota ger y gored. Yma, mae ysgolion pysgod / llwybrau pysgod fel y gall **eogiaid** nofio'n haws i fyny'r afon i silio tua diwedd yr hydref. Hyd at bum mlynedd wedyn, yn y gwanwyn, mae'r **eogiaid** ifanc neu'r 'gleisiaid' yn nofio yn ôl i lawr trwy ail ysgol bysgod i Fôr Iwerydd i aeddfedu. Ymhen amser, dônt yn ôl i afon Wysg i gwblhau'r cylch. Os dowch yma pan mae'n nosi efallai y gwelwch **ystlumod Daubenton** yn sgimio dros wyneb y dŵr i ddal pryfed. Gallant ddefnyddio'u cynffon a'u traed i gipio pryfed o wyneb y dŵr.



Dilynwch y lôn sy'n fforchio i'r chwith ymhen rhyw 100 metr i gyrraedd y caffi a'r maes parcio.

3 Ewch ymlaen ar lwybr glan yr afon heibio i'r maes chwarae i blant a'r caeau chwarae.



***Dyfrgi** ar afon Wysg yn Aberhonddu.*

Gallech fod yn lwcus a gweld **dyfrgwn** yn nofio ac yn chwarae yn gynnar yn y bore, rhwng y gored a man cychwyn Llwybr y Gurkhas. Gan mai pysgod yw eu prif fwyd, mae arnynt angen afonydd glân sydd â digonedd o fwyd, a llystyfiant ar hyd y glannau i guddio'u tyllau neu eu 'gwalau'. Yn y caeau, mae cronfa'r LPfN wedi darparu coed ffrwythau ar gyfer y berllan gymunedol – newyddion da i bryfed peillio ac i bobl.

4 Y glwyd ym mhen draw'r cae yw man cychwyn Llwybr y Gurkhas. Cafodd yr enw hwnnw gan fod criw o wirfoddolwyr o'r gymuned Nepalaidd leol wedi bod yn cydweithio â Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol i'w wella. Cewch ragor o fanylion am y llwybr yma [https://visitbrecon.org/the-gurkha-walk/](https://visitbrecon.org/the-gurkha-walk/)




*Gwirfoddolwyr Llwybr y Gurkhas*

Gall fod da byw yn y cae yr ochr draw felly cadwch gŵn ar dennyn.

Dilynwch lwybr glan yr afon am ryw 800m hyd at arwydd cyfeirio. Weithiau, mae'r llwybr hwn o dan ddŵr a gall y trefniadau mynediad newid.

Sylwch: Gwnaed difrod mawr i Lwybr y Gurkhas gan storm ym mis Tachwedd 2024, tra oedd y llyfryn hwn yn cael ei baratoi. Roedd gwaith ar y gweill i atgyweirio neu ailgyfeirio'r llwybr ar adeg ysgrifennu'r llyfryn. Er eich diogelwch, efallai na fydd modd defnyddio pob rhan o Lwybr y Gurkhas. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar unrhyw arwyddion a welwch.

Cadwch lygad yn agored am adar dŵr, pysgod yn neidio, **gleision y dorlan** a **siglennod llwyd** yn eu tymor. Mae canghennau sy'n bargodi yn rhoi cysgod; ac mae pryfetach y dŵr yn bwyta'r dail a'r pryfed sy'n syrthio i'r afon oddi arnynt. Uwchlaw'r llwybr, i'r dde, mae dolydd llawn blodau. Caiff y gwair ei gynaeafu ganol haf ac mae defaid neu wartheg yn pori yno wedyn. Ymhlith planhigion y ddôl mae **meillion, melynyddion, blodau menyn** a **gleision yr ŷd**.



*Mae'r **siglen lwyd** â'i bol melyn llachar yn fwy lliwgar nag y mae'r enw'n ei awgrymu. Yn aml, maent i'w gweld yn hela am bryfetach ar hyd glan y dŵr.*

5 Ym mhen draw'r llwybr trowch yn ôl a cherdded ar lan yr afon ac ar hyd y Promenâd nes i chi gyrraedd y bont fechan ar draws afon Honddu eto. Trowch i'r dde a chroesi'r bont at y goleuadau traffig.

6 Trowch i'r chwith a dilyn yr heol a chewch ambell gip ar Gastell Aberhonddu ac afon Honddu ar y chwith i chi. Pan gyrhaeddwch set arall o oleuadau traffig, ewch yn syth ar draws a dilyn Heol Gouesnou yn ôl i'r man cychwyn.

*Prom Aberhonddu yn yr hydref*



## Cysylltiad â **Llwybr 5**

Ym Mhwynt 6, trowch i'r dde a chroesi'r bont dros afon Wysg. Dilynwch gyfarwyddiadau **Llwybr 5** o Bwynt 2 ymlaen.

Llwybr 5

# Llan-faes



**Pellter:** 3 milltir /4.8km
**Gradd:** **1-2**.
**Cynefinoedd:** Afonydd a pherthi/gwrychoedd




*Mae **gwenoliaid duon** yn bwyta, yn cysgu ac yn paru wrth hedfan, gan lanio ddim ond i ddodwy wyau a magu eu cywion. Maent yn hedfan filiynau o filltiroedd yn eu hoes, a nhw yw adar cyflymaf Prydain wrth hedfan ar uchder cyson – yn cyrraedd tua 70mya! Yn aml, maent yn gwibio o gwmpas mewn heidiau, yn sgrechian yn swnllyd ar ei gilydd. Bu gostyngiad difrifol yn niferoedd **gwenoliaid duon** y DU dros y degawdau diwethaf. Yn ddiweddar, bu prosiect a ariannwyd gan LPfN yn codi ymwybyddiaeth o'r argyfwng yn lleol, a gosodwyd nifer o focsys nythu i'w croesawu yn ôl i Aberhonddu bob haf.*

1. O'r Gyfnewidfa Fysiau, trowch i'r chwith wrth y goleuadau, a cherdded ar hyd Free St. Yn y pen draw, trowch i'r dde a cherdded trwy ganol y dref, heibio i Eglwys y Santes Fair a'r siopau. *(Cewch fanylion am fyd natur yn adran Llwybr 4*). Dilynwch y ffordd sy'n fforchio i'r chwith i lawr Heol y Defaid at y goleuadau traffig ger y bont dros afon Wysg. Trowch i'r chwith i groesi'r bont.

2. Croeswch y bont dros afon Wysg i Lan-faes.

Mae rhai wedi gweld **dyfrgwn** o'r bont gyda'r wawr a gallech weld **eogiaid** neu bysgod eraill yn nofio isod. Yn yr haf, mae'r bont yn lle da i wylio **gwenoliaid y glennydd** a **gwenoliaid duon** yn hedfan dros yr afon yn hela pryfetach.





*Eog*

Ewch heibio i Goleg Crist a throi i'r dde wrth y goleuadau traffig i Silver Street.

3 Ar ôl tua 200 metr, ar y dde, mae mynedfa i barc bach sy'n werth mynd iddo. Cewch olygfeydd gwahanol o'r afon a gweld lle mae afonydd Tarell a Wysg yn cwrdd.

Mae yma goetir bychan a pherllan gymunedol. Gallech weld amryw o fathau o adar o lan yr afon, fel **bronwen y dŵr**, **hwyaden ddanheddog** a **glas y dorlan**.

*Gwelir **gleision y dorlan** yn aml ar yr afon – fel arfer yn ddim ond fflach lachar o las wrth iddynt wibio heibio.*



4 O'r parc, ewch ymlaen ychydig ar Silver Street ac yna fforchio i'r dde ar hyd llwybr tarmac gan ddilyn afon Tarell.



Afon Tarell

Mae afon Tarell yn un o dair afon yr adeiladwyd Aberhonddu arnynt. Mae'n tarddu ger Pen y Fan ac yn llifo tua'r gogledd i Aberhonddu. Cafodd ei dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig oherwydd tair rhywogaeth o bysgod, sef **lampreiod, gwangod** ac **eogiaid,** yn ogystal â **dyfrgwn**. Mae afonydd Tarell, Wysg a Honddu'n bwysig fel mannau lle mae **ystlumod** yn hela am fwyd gyda'r nos.

*Pysgod cyntefig tebyg i lysywod yw **lampreiod**. Mae ganddynt geg fel sugnwr ac maent yn glynu wrth bysgod eraill er mwyn sugno hylifau eu corff yn fwyd.*



5 Pan gyrhaeddwch y ffordd fawr, trowch i'r chwith am tua 450 metr, gan basio tafarn y Drover's. Trowch i'r dde i fyny'r heol ychydig ar ôl eglwys Dewi Sant.

6 Ychydig ar ôl pasio mynedfa'r ysgol gynradd, fe welwch lôn ar y chwith. Dilynwch y lôn hon am tua 450 metr. Mae'n lôn dawel ond nid oes palmant, felly gwrandwch am draffig.

Mae'r lôn hon â'i gwrychoedd hynafol yn lle da i glywed adar yn canu yn y gwanwyn ac i weld **ystlumod** yn hela am fwyd. Mae **derwen** aeddfed ysblennydd i'w gweld o'r ail glwyd i gae ar y dde.

7 Pan fydd y lôn yn gwyro i'r dde ac yn dringo, trowch i'r chwith ac yna'n syth i'r dde trwy glwyd gan ddal i fynd ar lwybr troed. Ar ôl 300 metr, dilynwch y llwybr cyntaf i'r chwith dros y bompren a dilyn llwybr yr afon yn ôl i gyfeiriad y dref. Mae gât fochyn gul yn y pen draw.


8 Pan gyrhaeddwch y ffordd fawr, trowch i'r dde a chroesi'r bont. Wrth y goleuadau traffig ewch yn syth ar draws (gan gadw ychydig i'r chwith). Dilynwch yr heol a chewch ambell gip ar Gastell Aberhonddu ac afon Honddu ar y chwith i chi. Pan gyrhaeddwch set arall o oleuadau traffig, ewch yn syth ar draws a dilyn Heol Gouesnou yn ôl i'r man cychwyn.

## Cysylltiad â **Llwybr 6**

O Bwynt 8 trowch i'r dde i'r bont dros afon Wysg ac yna'n syth i'r dde i lawr y stepiau fydd yn mynd â chi i lan yr afon a chewch gerdded ar hyd llwybr yr afon. Pan gyrhaeddwch yr heol, trowch i'r dde heibio i Harp Terrace a mynd ymlaen gan gadw i'r dde o'r maes parcio bach, ar hyd Scout Lane. Dilynwch gyfarwyddiadau **Llwybr 6** o Bwynt 3

Er mwyn osgoi'r stepiau: Ym Mhwynt 8 trowch i'r dde i'r bont dros afon Wysg ac yna ewch i fyny Heol y Defaid. Ewch yn syth ymlaen trwy ganol y dref. Yn syth ar ôl y groesfan sebra trowch i'r dde o flaen amgueddfa'r Gaer. Dilynwch y llwybr trwy erddi'r amgueddfa ac i lawr llethr. Ar waelod y llethr cerddwch heibio i Harp Terrace a mynd ymlaen gan gadw i'r dde o'r maes parcio bach, ar hyd Scout Lane. Dilynwch gyfarwyddiadau **Llwybr 6** o Bwynt 3

# Llwybr 6 Caeau'r Ynys, Afon Wysg a'r gamlas



**Pellter:** 2.8 milltir /4.5km
**Gradd:** **1-2** os ydych yn osgoi'r stepiau
**Cynefinoedd:** Afon, dolydd a chamlas

1. O'r Gyfnewidfa Fysiau, trowch i'r chwith wrth y goleuadau, a cherdded i lawr Free St.

2. Ym mhen draw'r stryd, mae dau opsiwn:

**Gallwch** naill ai droi i'r dde a cherdded trwy ganol y dref, heibio i Eglwys y Santes Fair a'r siopau. Dilynwch y ffordd sy'n fforchio i'r chwith i lawr Heol y Defaid at y bont dros afon Wysg. Trowch i'r chwith i lawr y stepiau ychydig cyn y bont dros afon Wysg i gyrraedd glan yr afon a chewch gerdded ar hyd y llwybr yno.

> Caiff llystyfiant glan yr afon ei dorri a'i glirio weithiau i leihau perygl llifogydd yn uwch i fyny'r afon.

Pan gyrhaeddwch yr heol, trowch i'r dde heibio i Harp Terrace a mynd ymlaen gan gadw i'r dde o'r maes parcio bach, ar hyd Scout Lane.


**Neu, er mwyn osgoi'r stepiau**: Trowch i'r dde ac yna croeswch yr heol ar y groesfan sebra. Ewch i'r chwith i'r gerddi o flaen amgueddfa'r Gaer. Dilynwch y llwybr trwy'r gerddi o gwmpas yr amgueddfa. Plannwyd y rhain i ddenu peillwyr. Ewch ymlaen i lawr llethr. Ar y gwaelod, cerddwch heibio i Harp Terrace ac yna'n syth ymlaen ar hyd Scout Lane.



**3** Ewch yn syth ymlaen, heibio adeilad y Sgowtiaid nes i chi gyrraedd clwyd i Gaeau'r Ynys, ar lan afon Wysg.

Er bod glan yr afon yn lle hyfryd i fynd am dro, yn yr haf mae **ffromlys chwarennog**, rhywogaeth anfrodorol ymledol, yn tyfu'n wyllt yno. Mae staff y Parc Cenedlaethol a gwirfoddolwyr lleol yn gweithio'n galed bob blwyddyn i reoli'r ffromlys gan ei fod yn mygu planhigion gwyllt brodorol. Ar ddarnau agored o'r afon, mae'r marianau sydd yn y golwg ar drai yn gynefin pwysig i chwilod prin. Yn yr haf, gallech weld **gwenoliaid y glennydd** yn hedfan i mewn ac allan o'u tyllau nythu yng nglannau serth yr afon. Cadwch lygad yn agored hefyd am **fronwennod y dŵr** a **siglennod llwyd.**


*Caeau'r Ynys*


*Afon Wysg*



*Mae **gwenoliaid y glennydd** yn cloddio tyllau nythu yng nglan yr afon. Maent yn dodwy eu hwyau ac yn magu eu cywion yma bob haf, cyn mudo yn ôl i Affrica i dreulio'r gaeaf.*

Dilynwch lwybr glaswelltog glan yr afon trwy glwydi, am tua milltir /1.6 km. Mae sawl llwybr amlwg ar y chwith a fydd yn byrhau'r daith os dymunwch ac yn mynd â chi at y gamlas. Fel arall, ewch ymlaen nes i chi gyrraedd troad i'r chwith ger y safle carthffosiaeth.

**4** Trowch i'r chwith yma, ewch trwy'r glwyd a dilyn y lôn arw sy'n arwain at y safle carthffosiaeth. (Os dymunwch, gallwch fynd ymlaen am tua 2.5 milltir/ 4km nes bod y llwybr yn cwrdd â'r gamlas ger Loc Brynich).

Daw'r lôn i ben ger hen odynau calch o'r 19eg ganrif – mae bwrdd gwybodaeth yn rhoi'r hanes. Maent hefyd yn gynefinoedd da i **ystlumod**. Trowch i'r dde ac yna dro siarp i'r chwith ar ôl 100 metr ar gyffordd y llwybr ger y gamlas.

Mae camlesi'n goridorau ardderchog ar gyfer bywyd gwyllt. Ymhlith y pysgod sydd yn y gamlas mae **rhufelliaid, dars, tybiau'r dail/cochgangod, draenogiaid dŵr croyw** a **llysywod.** Maent i'w gweld yn aml ym masn y gamlas ger y theatr. Mae yna sawl math o hwyaid hefyd – lle da i weld eu cywion yn y gwanwyn.



*Basn Camlas Aberhonddu*

**5** Dilynwch y gamlas yn ôl i gyfeiriad y dref, i gyrraedd basn y gamlas a'r theatr.

Cadwch lygad yn agored am randiroedd Watton lle mae'r garddwyr yn ymdrechu i fod mor gyfeillgar â phosibl i fywyd gwyllt trwy gael grant gan LPfN i osod blychau adar, blychau draenogod a gwestai pryfed.

**6** Dilynwch y ffordd o gwmpas i'r dde a throwch i'r dde wrth y gylchfan fach. Wrth y gyffordd T, croeswch y ffordd fawr a mynd i lawr y stryd fach i'r chwith (Little Free St). Yn y pen draw, trowch i'r dde i Free St. Bydd hyn yn mynd â chi yn ôl i'r gyffordd ger y Gyfnewidfa Fysiau.

# Aberhonddu – ‘Porth i Fyd Natur’



*Aberhonddu o Ben y Crug*



*Afon Wysg*



*Gelli’r Priordy*






*Basn y Gamlas a’r Theatr*



*Pont Llan-faes*



***Gwalch-wyfyn yr helyglys***



***Glesyn cyffredin***



***Llyffant dafadennog***



***Dryw***

**Lluniau trwy garedigrwydd:** Jon Dixon, Peter Seaman, Peter Rhys Williams.
Getty Images/iStockphoto – Marshall Bruce, nieudacza, WitR, Gannet77, MikeLane45, Henri Lehtola, Pro2Sound, Helen Davies, CreativeNature_nl, Lat53n3, ASakoulis, Tas3, Rostislav Kralik, birdsonline, Sue Thatcher, Chushkin, Andrew_Howe.
Shutterstock – Hugh Lansdown, matushaban, Rostislav Stefanek.

# TEITHIAU NATUR ABERHONDDU

## 6 taith gerdded fer i'ch cyflwyno i fywyd gwyllt Aberhonddu

**Mae llawer o lefydd hyfryd o natur wledig o fewn pellter cerdded i ganol tref Aberhonddu.**

**Mae'r chwe thaith gerdded yn y llyfryn hwn yn eich arwain trwy amryw o gynefinoedd gan roi gwybodaeth am wahanol rywogaethau bywyd gwyllt i gadw golwg amdanynt ar y ffordd. Maent hefyd yn llefydd da i fwynhau golygfeydd trawiadol o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gellir mynd ar un daith gerdded gylchol hir, ar chwe thaith unigol fyrrach neu gallwch gyfuno'r teithiau fel y mynnwch.**

**Cewch lawrlwytho'r teithiau neu gymryd llyfryn a mwynhau popeth sydd gan Aberhonddu, 'Porth i Fyd Natur', i'w gynnig!**



BANNAU BRYCHEINIOG PARTNERIAETH NATUR LEOL
Dyfodol Gyda Natur Yn Ganolog Iddi

PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL
LOCAL NATURE PARTNERSHIPS
CYMRU

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cynhyrchwyd gan Bartneriaeth Natur Leol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda chymorth staff o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.